

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Talbot Road, practis
Tonysguboriau, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 21 Hydref 2024

Dyddiad cyhoeddi: 21 Ionawr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	8
• Ansawdd Profiad y Claf	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
Y camau nesaf	19
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	21
Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Talbot Road, practis Tonysguboriau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 21 Hydref 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd pump gan aelodau o'r staff. Oherwydd y nifer isel o ymatebion, prin yw'r adborth sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin yn briodol gan staff proffesiynol a oedd yn gweithio i barchu eu hurddas ac i gynnal eu hawliau. Roedd y ddogfennaeth a oedd ar gael i'r cleifion yn glir ac yn llawn gwybodaeth, ac roedd yr holl drefniadau cyfathrebu rhwng y clinigwyr a'r cleifion yn briodol. Roedd ardaloedd y cleifion a'r ystafelloedd clinigol wedi cael eu trefnu'n gywir a'u gosod er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion.

Gwelsom fod apwyntiadau yn cael eu rheoli'n effeithiol a'u bod yn sicrhau y gall y cleifion gael eu gweld mewn modd amserol, yn enwedig ar gyfer anghenion gofal deintyddol brys.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth fod ymdrechion gweithredol ar waith i gefnogi hawliau a thrin unigolion yn gyfartal
- Gwelsom dystiolaeth gref fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
- Roedd yr holl adborth gan y cleifion yn gadarnhaol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn rhoi gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd trefnus, glân a thaclus. Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol a'r dyfeisiau meddygol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Ar y cyfan, roedd amgylchedd y practis yn addas. Fodd bynnag, nodwyd gennym y gallai'r tymheredd yn yr ystafell ddihalogi fod yn boeth i'r staff sy'n gweithio yn yr ardal hon am gyfnod estynedig o amser.

Roedd y trefniadau diogelu yn briodol i amddiffyn plant ac oedolion, a rhoddodd y staff wybod i ni y byddent yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw bryderon diogelu. Ar y cyfan, roedd cofnodion y cleifion yn cyflwyno darlun cyflawn o'r gofal a roddwyd, ond nodwyd gennym y dylid gwneud rhai gwelliannau mewn rhai ardaloedd. Roedd hefyd angen gwella'r ddarpariaeth cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gallai swyddog cymorth cyntaf fod ar gael bob amser.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr amgylchedd ar dymheredd addas i'r staff weithio ynddo

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau darpariaeth addas o swyddogion cymorth cyntaf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y triniaethau radiograffeg yn cael eu rheoli'n briodol, ac roedd cofnodion yn cael eu cadw i safon foddhaol
- Roedd gan y staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod ble i gael cyngor proffesiynol perthnasol, pan fo angen.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Esboniodd aelodau o dîm rheoli'r practis eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan rwydwaith cynhwysfawr drwy eu corff corfforaethol. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn eu rheolwyr ac y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt. Ar y cyfan, gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff a gwnaethom nodi amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis a oedd yn golygu bod lefel dda o ofal yn cael ei rhoi i'r cleifion.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis ac roedd pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Gwelsom fod dull cynhwysfawr ar waith i wella ansawdd er mwyn llywio gwelliant parhaus. Gwelsom hefyd fod gan y practis gydberthnasau gwaith da â'r bwrdd iechyd lleol a'r fferyllfa leol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl wiriadau cyn cyflogi eu cynnal fel mater o drefn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd system addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion
- Gwnaethom nodi amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis a oedd yn seiliedig ar gydberthnasau gwaith cefnogol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal a ddarperir gan MyDentist, Tonysguboriau. Cafwyd cyfanswm o saith ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd saith ymateb ar gyfer pob cwestiwn. Dywedodd un claf:

"Er y gall trefnu apwyntiad fod yn anodd gan fod angen aros, mae staff y dderbynfa yn arbennig os oes gen i unrhyw broblemau ac maen nhw'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau i sicrhau fy mod yn cael apwyntiad cyn gynted â phosibl."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth foddhaol ar gael i'r cleifion am y practis yn y daflen gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn y dderbynfa. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i'r cleifion am endodonteg, clefyd y deintgig a'r gweithdrefnau cyn ac ar ôl cael tynnu dannedd.

Gwelsom fod y ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat wedi'u harddangos yn glir ochr yn ochr ag enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC). Gwelsom fod yr oriau agor a'r manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld ger y drws ffrynt.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Gwnaethom nodi fod y dderbynfa ac ardaloedd aros y cleifion ar wahân. Roedd drysau solet ar ddeintyddfeydd y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau. Roedd y cleifion hefyd yn cael cynnig siarad â'r staff i ffwrdd o ardal y dderbynfa, pe byddai angen. Roedd y mesurau hyn yn golygu na allai neb arall glywed sgysiau rhwng y staff a'r cleifion a bod preifatrwydd y cleifion yn cael ei gynnal.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth breifat am gleifion yn cael ei haildrodd dros y ffôn er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion. Roedd cytundeb cyfrinachedd ar waith yn y practis a oedd wedi cael ei lofnodi gan bob aelod o'r

staff ac a oedd yn nodi'r disgwyliadau ar y practis i sicrhau preifatrwydd gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y Naw Egwyddor a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod proses apwyntiadau addas ar waith i reoli a defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Roedd y cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiadau. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddai apwyntiadau'n mynd ar ei hôl hi. Lle'r oedd apwyntiadau'n mynd y tu hwnt i'r amser a drefnwyd, bydd y clinigwyr yn ffonio'r dderbynfa i roi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion hefyd yn cael gwybod am oedi wrth gyrraedd ac yn cael cynnig apwyntiadau amgen lle y gofynnir am hynny.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn brysbennu cleifion dros y ffôn er mwyn sicrhau bod y rhai â'r anghenion gofal mwyaf dybryd yn cael eu blaenoriaethu. Gwelsom fod slotiau yn y dyddiadur bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld mewn argyfwng. Cadarnhaodd y staff fod y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth 111 y GIG i drin apwyntiadau brys y GIG yn ardal y bwrdd iechyd.

Dywedodd y staff wrthym fod gan bob clinigydd amseroedd aros gwahanol rhwng apwyntiadau ond nad oedd unrhyw glaf yn aros mwy na phedair wythnos i gael ei weld fel arfer. Roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu'n unol ag argaeledd y cleifion lle bynnag y bo'n bosibl. Roedd system ar waith er mwyn i gleifion pediatriig gael apwyntiadau ar amser a oedd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion addysgol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd y llinell iaith yn cael ei defnyddio, lle y bo angen, i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol, fel print bras, gyda dogfennau mwy arbenigol yn cael eu darparu ar gais. Gwelsom y byddai sgiliau iaith yn cael eu nodi fel nodwedd fanteisiol yn ystod recriwtio a chynllunio'r gweithlu.

Gwelsom dystiolaeth gref fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd dogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl. Rhoddodd staff wybod i ni fod y bwrdd iechyd yn eu helpu i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith. Gwelsom fod y staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' ac y gellid cynnig triniaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl yr angen.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom dystiolaeth fod ymdrechion gweithredol ar waith i gefnogi hawliau ac i drin unigolion yn gyfartal. Roedd polisiâu priodol yn nodi sut roedd y practis yn cefnogi hawliau'r cleifion a'r staff. Roedd y polisi derbyn cleifion hefyd yn amlinellu'r dull a ddefnyddir gan y practis i dderbyn pob claf i'r practis, ni waeth beth fo'u cefndir. Gwelsom fod y staff yn cwblhau hyfforddiant penodol er mwyn diogelu hawliau'r cleifion, yn ogystal â hyfforddiant ar atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu.

Gwnaethom nodi fod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar y staff yr oedd angen gwneud addasiadau rhesymol ar eu cyfer. Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol ar gyfer y cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys prynu cadair arbenigol i gefnogi'r cleifion ag anawsterau symudedd, a gosod canllawiau y tu allan i'r practis er mwyn helpu'r cleifion wrth gyrraedd.

Roedd hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy ganiatáu iddynt ddewis y rhagenwau a'r enwau a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion, gyda nodyn yn cael ei roi ar ffeil i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r dewisiadau hyn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Yn ôl yr hyn a welsom, roedd y practis yn daclus ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr gwaelod, gyda phedwar deintyddfa ac ystafell aros o faint addas ar gyfer nifer y cleifion. Roedd y goleuadau, y systemau awyru a'r arwyddion i gyd yn foddhaol. Fodd bynnag, roedd y tymheredd yn yr ystafell ddihalogi yn boeth oherwydd natur y gwaith a wneir yn yr ardal hon. Dywedwyd wrthym fod un o'r ffenestri yn cael ei hagor pan fo'r staff yn gweithio yn yr ystafell hon am gyfnod estynedig o amser, ond ni welsom fod unrhyw ffenestr ar agor yn ystod ein harolygiad.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr amgylchedd ar dymheredd addas i'r staff weithio ynddo.

Gwelsom fod ardal newid foddhaol ar gyfer y staff a bod loceri ar gael ac roedd toiledau'r cleifion a'r staff yn lân ac yn cynnwys y cyfarpar priodol. Clywsom fod y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol hefyd.

Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom hefyd fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd y cynlluniau parhad busnes yn gadarn ac roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch. Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith mewn perthynas â diogelwch tân. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd ac arddangos arwyddion diogelwch tân a dim smygu yn glir.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ac amgylchedd gwaith diogel. Roedd amserlenni glanhau ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn cael ei lanhau'n effeithiol. Gwelsom fod trefniadau ac arwyddion hylendid dwylo priodol yn cael eu defnyddio. Gwelsom

hefyd fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol.

Gwelsom ystafell ddihalogi lân a threfnus gyda threfniadau cadarn ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir yn yr ardal hon. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod gwiriadau dyddiol priodol yn cael eu cynnal o gylchredau'r peiriant awtoclaf a bod amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd ar waith. Gwelsom fod pob un o'r awtoclafau yn cael eu defnyddio'r ddiogel ac yn effeithiol.

Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar brosesau dihalogi cywir. Roedd y practis yn cynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau mewnol fel mater o drefn ym mhob rhan o'i gorff corfforedig, a gwnaethom sicrhau bod y practis yn ymwybodol o'r cymorth gydag archwiliadau sydd ar gael iddo drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff ac roedd trefniadau priodol ar waith er mwyn cyfyngu ar y risg o anafiadau a achosir gan offer miniog.

Gwelsom fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol. Roedd holl wastraff y practis yn cael ei waredu'n gywir drwy gcontract gwaredu gwastraff addas. Fodd bynnag, nid oedd y biniau gwastraff clinigol yng nghefn y practis wedi'u cloi ar yr olwg gyntaf ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd hyn yn golygu y gallai unrhyw berson gael gafael ar wastraff clinigol a all fod yn niweidiol. Yn nes ymlaen yn y dydd, roedd y biniau hyn wedi cael eu cloi pan aethom i edrych arnynt eto. Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio a'i ddatrys ar ddiwrnod ein harolygiad, a gellir gweld canlyniad y mater yn [Atodiad A](#).

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn addas. Gwelsom fod system ddiogel ar waith ar gyfer storio pad presgripsiynau'r practis. Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi. Roedd y silindrau ocsigen yn cael eu rheoli'n briodol gan staff a oedd wedi cael hyfforddiant addas.

Gwelsom fod pecyn argyfwng yn y practis yr oedd yn bosibl cael gafael arno yn hawdd, a'i fod yn cynnwys cyfarpar addas ac eitemau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt yn gyfredol. Roedd cofnodion pob aelod o'r staff yn nodi eu bod yn meddu ar gymhwyster adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) cyfredol.

Roedd 15 aelod o staff yn gweithio yn y practis ond dim ond un oedd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Felly, roedd disgwyl i'r aelod hwn o staff wasanaethu trosiant uchel o gleifion yn y pedair deintyddfa. Byddai hyn hefyd yn golygu na fyddai darpariaeth cymorth cyntaf ar gael yn y practis pe na fyddai'r cyflogai yn gweithio am unrhyw gyfnod o amser.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau darpariaeth addas o swyddogion cymorth cyntaf.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu addas a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol, yn nodi arweinydd diogelu penodedig ac yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Roedd unrhyw ddiweddariadau i'r gweithdrefnau yn cael eu rhannu â'r practis drwy ei gorff corfforaethol ac roedd unrhyw newidiadau yn cael eu rhannu â'r staff drwy adnodd cydymffurfiaeth ar-lein ac yn ystod cyfarfodydd tîm.

Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn deall y gweithdrefnau diogelu gan ddweud y byddent yn gwybod sut i godi pryder ac y byddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Roedd yr holl gyfarpar deintyddol aml dro a ddefnyddir gan y practis yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Gwelsom fod y nodiadau clinigol ar gyfer triniaethau radiograffig yn gyflawn, a nododd y clinigwyr bod y cleifion yn cael gwybod am risgiau a manteision ymbelydredd. Gwelsom hefyd fod cysylltiadau ymbelydredd yn cael eu nodi'n gywir yng nghofnodion y cleifion. Nodwyd gennym ei bod hi'n hawdd cael gafael ar y rheolau lleol ym mhob deintyddfa. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn dangos bod triniaethau yn cael

eu darparu'n unol ag anghenion clinigol ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod ble i gael gafael ar gyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt. Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o naw claf yn ystod ein harolygiad. Roedd cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion hyn yn cynnig cofnod cyfredol a chyflawn o'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu i'r cleifion. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd y rhesymau dros ragnodi gwrthfotigau bob amser yn cael eu cofnodi yn y cofnodion perthnasol y gwnaethom edrych arnynt
- Nid oedd dau o'r cofnodion yn cynnwys diweddariadau o'r Archwiliad Periodontol Sylfaenol, yr archwiliad meinweoedd meddal, gwiriadau o du mewn a thu allan i'r geg ac nid oedd unrhyw gofnod bod prosesau sgrinio am ganser wedi'u cynnal
- Nid oedd hanesion meddygol cychwynnol y cleifion wedi cael eu cofnodi mewn wyth allan o'r naw cofnod a welsom gan eu bod wedi cael eu cofnodi'n flaenorol ar bapur. Roedd hanesion meddygol diweddaraf y cleifion ar gael mewn wyth allan o'r naw cofnod.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Nid oedd dewisiadau iaith y claf wedi'u cofnodi yn rhai o'r hen gofnodion y gwnaethom edrych arnynt. Fodd bynnag, gwelsom fod y cofnodion mwy diweddar yn cynnwys cofnod priodol o ddewisiadau iaith y claf.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn darparu gwasanaeth addas i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn symud ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol yn effeithlon. Gwelsom fod yr apwyntiadau hyn yn cael eu defnyddio'n

effeithiol o ganlyniad i gymysgedd priodol o sgiliau a phroses trefnu apwyntiadau a brysbennu gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Esboniodd rheolwr y practis ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n effeithiol i gyflawni ei rôl arweinyddiaeth gan rwydwaith cynhwysfawr ei gorff corfforaethol. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis ac roedd pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth edrych ar gofnodion y cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau addas am ddiweddariadau i bolisiau, adborth gan gleifion yn ogystal â materion iechyd a diogelwch.

Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr ac y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd.

Roedd adnodd cydymffurfiaeth ar-lein yn cael ei ddefnyddio i nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau, y materion a'r ffactorau lliniaru. Roedd y system hefyd yn cael ei defnyddio i fonitro a diweddarau polisiau a gweithdrefnau yn rheolaidd ac i rannu'r newidiadau hyn â'r staff.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Roedd y defnydd o staff dros dro neu staff asiantaeth yn y practis yn cael ei reoli'n gywir, gan gynnwys yr holl wiriadau cyflogaeth a hyfforddiant gofynnol.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr a chefnogol ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn parhau i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer eu rolau. Gwnaethom edrych ar 5 o'r 15 o gofnodion staff a gaiff eu cyflogi'n barhaol, a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Roedd system ddigidol gadarn yn cael ei defnyddio i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant y staff ac i gynnal cofnodion y staff yn briodol. O'r cofnodion a welsom a'r staff y gwnaethom siarad â nhw, cawsom sicrwydd bod y staff yn cael amser a chymorth i gwblhau eu hyfforddiant.

Roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu rheoli'n gywir ac mewn modd cefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff. Esboniodd

y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad y byddent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â nhw pe byddai ganddynt bryder am y ffordd roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, triniaethau neu drefniadau rheoli. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon.

Ar y cyfan, roedd cydymffurfiaeth y practis o ran sicrhau bod rhwymedigaethau proffesiynol y staff yn gywir ac yn cael eu cadw'n gyfredol yn addas. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dogfennaeth sgrinio iechyd ac yswiriant indemniad proffesiynol wedi'u cofnodi. Roedd asesiadau risg priodol ar waith lle nad oedd gwiriadau geirda cyn cyflogi ar gael yng nghofnodion yr aelodau o staff hŷn. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cofnodion nyrs a oedd wedi cael ei phenodi'n ddiweddar yn nodi bod gwiriadau geirda wedi cael eu cynnal, er gwaethaf y ffaith bod yr aelod o staff wedi darparu'r geirdaon i'w gwirio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl wiriadau cyn cyflogi eu cynnal fel mater o drefn.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd system gadarn ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Gwelsom ffurflenni adborth wrth y dderbynfa a byddai adolygiadau gwasanaeth cwsmeriaid hefyd yn cael eu hanfon at gleifion i'w cwblhau ar-lein ar ôl cael triniaeth. Roedd adborth yn cael ei adolygu'n ddyddiol gan reolwr y practis ac yn cael ei oruchwyllo'n rheolaidd gan ei gorff corfforaethol. Roedd yr ymatebion i adborth i'w gweld yn ardal y dderbynfa ac ar-lein.

Roedd y polisi cwynion yn cydymffurfio'n llawn â gweithdrefn Gweithio i Wella y GIG ac roedd yn cael ei arddangos i'r cleifion yn y dderbynfa. Roedd y polisi cwynion yn enwi'r aelod o staff y dylai'r cleifion gysylltu ag ef. Roedd cwynion llafar yn cael eu cofnodi yn y dderbynfa ac yn cael eu rhannu â'r pwynt cyswllt cwynion mewn modd amserol er mwyn iddynt gael eu datrys. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y polisi cwynion, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer AGIC a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, Llais. Nid oedd thema gyffredinol yn y cwynion ac ymdriniwyd â phob un ohonynt yn effeithiol ac yn unol â pholisi'r practis.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Er nad oedd cofnodion o unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, cawsom sicrwydd fod y broses a oedd ar waith yn foddhaol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull cynhwysfawr o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd a chynhwysfawr o gofnodion cleifion, radiograffau, rhagnodi a gwastraff gofal iechyd. Roedd y practis hefyd yn ymgymryd ag adnoddau hyfforddiant datblygu tîm drwy ei gorff corfforaethol, MyDentist.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda'r bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys y fferyllfa leol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i olrhain unrhyw atgyfeiriadau a wnaed at ddarparwyr gwasanaethau eraill.

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd y biniau gwastraff clinigol yng nghefn y practis wedi'u cloi ar yr olwg gyntaf.	Gallai unrhyw berson gael gafael ar wastraff clinigol a all fod yn niweidiol.	Cafodd hyn ei godi gyda rheolwr y practis.	Cafodd y biniau gwastraff clinigol eu cloi. Gwnaeth y practis atgoffa pob aelod o'r staff o bwysigrwydd sicrhau bod y biniau gwastraff clinigol yn cael eu cadw ar glo.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: MyDentist, Talbot Road, Tonysguboriau

Dyddiad yr arolygiad: 21 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol pellach yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: MyDentist, Talbot Road, Tonysguboriau

Dyddiad yr arolygiad: 21 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Roedd y tymheredd yn yr ystafell ddihalogi yn boeth oherwydd natur y gwaith a wneir yn yr ardal hon. Dywedwyd wrthym fod un o'r ffenestri yn cael ei hagor pan fo'r staff yn gweithio yn yr ystafell hon am gyfnod estynedig o amser, ond ni welsom fod unrhyw ffenestr ar agor yn ystod ein harolygiad.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr amgylchedd ar dymheredd addas i'r staff weithio ynddo.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 22 (2) (a)	Mae adran cyfleusterau'r cwmni wedi cael gwybod am y mater hwn ac mae arolygiad llawn o'r ystafell ddihalogi yn mynd rhagddo er mwyn gosod gwyntyllau ychwanegol.	Sara Haworth	Ionawr 2025

2.	Roedd 15 aelod o staff yn gweithio yn y practis ond dim ond un oedd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Felly, roedd disgwyl i'r aelod hwn o staff wasanaethu trosiant uchel o gleifion yn y pedair deintyddfa. Byddai hyn hefyd yn golygu na fyddai darpariaeth cymorth cyntaf ar gael yn y practis pe na fyddai'r cyflogai yn gweithio am unrhyw gyfnod o amser.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau darpariaeth addas o swyddogion cymorth cyntaf.	Adran 17 (1) (a)	Mae dau swyddog cymorth cyntaf arall wedi cofrestru ar gyfer cwrs hyfforddiant Ambiwlans Sant Ioan ar 29/01/2025	Sara Haworth	Ionawr 2025
3.	Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol yr oedd angen eu gwella yn y cofnodion cleifion: Nid oedd y rhesymau dros ragnodi gwrthfotigau bob amser yn cael eu cofnodi yn y cofnodion	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.	Adran 20 (1) (a)	Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal â phob clinigydd er mwyn gwella agweddau penodol ar eu proses cadw cofnodion ac i ddilyn y canllawiau cyffredol. Bydd archwiliadau newydd	Sara Haworth	Parhaus

<p>perthnasol y gwnaethom edrych arnynt</p> <p>Nid oedd dau o'r cofnodion yn cynnwys diweddariadau o'r Archwiliad Periodontol Sylfaenol, yr archwiliad meinweoedd meddal, gwiriadau o du mewn a thu allan i'r geg ac nid oedd unrhyw gofnod bod prosesau sgrinio am ganser wedi'u cynnal</p> <p>Nid oedd hanesion meddygol cychwynnol y cleifion wedi cael eu cofnodi mewn wyth allan o'r naw cofnod a welsom gan eu bod wedi cael eu cofnodi'n flaenorol ar bapur. Roedd hanesion meddygol diweddaraf</p>			<p>wedi cael eu cynnal erbyn mis Ionawr 2025, a bydd canlyniadau pob archwiliad yn cael eu rhannu â phob clinigydd a'r cynghorydd datblygu clinigol a fydd yn parhau i fonitro nodiadau clinigol pob clinigydd</p> <p>Caiff hanesion meddygol bellach eu hanfon yn awtomatig dros neges SMS 48 awr cyn yr apwyntiad a'u cadw ar gofnod R4 y cleifion. Caiff unrhyw hanesion meddygol nad ydynt wedi cael eu hanfon drwy'r system SMS eu cwblhau a'u gwirio wrth i'r cleifion gyrraedd y practis. Mae pob claf newydd yn cael copïau papur</p>		
--	--	--	---	--	--

	y cleifion ar gael mewn wyth allan o'r naw cofnod.			i'w llenwi wrth gyrraedd y practis. Caiff y rhain eu sganio ar y system R4.		
4.	Gwelsom nad oedd cofnodion nyrs a oedd wedi cael ei phenodi'n ddiweddar yn nodi bod gwiriadau geirda wedi cael eu cynnal, er gwaethaf y ffaith bod yr aelod o staff wedi darparu'r geirdaon i'w gwirio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl wiriadau cyn cyflogi eu cynnal fel mater o drefn.	Adran 18	Mae system sefydlu bellach ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl wiriadau geirda yn cael eu cwblhau gan adran Adnoddau Dynol MyDentist.	Sara Haworth	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sara Haworth

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 9/12/2024